Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# The Potteries

## Dyddiad yr arolygiad:  Medi 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/11/2018**

## Cyd-destun

Ysgol annibynnol gofrestredig yw The Potteries, a agorodd yng Ngorffennaf 2013. Mae'r ystafell ddosbarth wedi'i lleoli mewn tŷ mawr yn Aber-miwl ger y Drenewydd, sydd hefyd yn gartref plant. Mae The Potteries yn ganolfan asesu; mae'r disgyblion yn mynychu rhaglen 26 wythnos yn yr ysgol cyn symud ymlaen i leoliadau hirdymor.

Ar yn o bryd, mae pedwar o ddisgyblion sy'n fechgyn 11-13 oed ar gofrestr yr ysgol. Mae statws plant sy'n derbyn gofal gan bob un o'r pedwar disgybl, ac mae datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) gan ddau ohonynt. Y prif angen a nodwyd yw anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Daw pob un o'r disgyblion o awdurdodau lleol yn Lloegr.

Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd er 2012. Ceir 27 o staff cymorth ar draws gofal ac addysg, sy'n cynnwys dau reolwr, un athro sydd hefyd yn bennaeth, ac un aelod o staff sy'n asesu anghenion therapiwtig disgyblion.

Yn Nhachwedd 2017 y cynhaliwyd yr arolygiad mwyaf diweddar o'r ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella eu hymddygiad yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac maent yn trosglwyddo'n llwyddiannus i leoliadau hirdymor addas. Mae safonau llawer o ddisgyblion mewn llythrennedd a rhifedd yn gwella yn unol â'u galluoedd o'u hasesiadau gwaelodlin.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn datblygu agweddau mwy cadarnhaol at ddysgu. Maent yn trafod eu dysgu, a'r hyn y maent yn ei weld yn ddefnyddiol yn ystod gwersi, yn hyderus.

Mae'r pennaeth yn cynllunio gwersi clir a manwl ar gyfer gweithgareddau ar y safle ac oddi ar y safle. Mae'r gwersi yn ddifyr ac yn seiliedig ar gyfuniad o ddiddordebau'r disgyblion a gwybodaeth asesu fanwl. Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn ystod gweithgareddau oddi ar y safle.

Ceir systemau effeithiol yn yr ysgol i olrhain a monitro cynnydd disgyblion trwy gydol y rhaglen 26 wythnos. Mae'r ffocws gwell ar lythrennedd wedi cyfrannu ymhellach at y broses hon. Mae staff cymorth yn cyflwyno cynlluniau gwersi effeithiol, a byddant yn eu harfarnu gyda'r pennaeth yn ddyddiol. Caiff disgyblion gyfarfodydd adborth bob hanner tymor, ac yn ystod y cyfarfodydd hyn mae disgyblion yn rhannu'u syniadau ac yn myfyrio ar eu cyfranogiad yn yr ysgol a'r cartref gofal. Mae adborth disgyblion ynglŷn â'r cyfarfodydd hyn yn gadarnhaol iawn.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad clir yn yr ysgol. Un o gryfderau'r ysgol yw'r cydweithredu agos rhwng y pennaeth a'r staff cymorth wrth gynllunio gwersi. Mae gwybodaeth o asesiadau therapiwtig perthnasol yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddarparu llwybrau cwricwlwm addas i'r disgyblion.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn wrth weithredu ei chynllun gweithredu ôl-arolygiad o'r arolygiad craidd yn Nhachwedd 2017.

## Meysydd i'w datblygu

Dywedodd y pennaeth wrth yr arolygwyr yn ystod yr ymweliad fod yr ysgol yn bwriadu cynyddu'r cyfleusterau ystafell ddosbarth ar y safle presennol gyda dwy ardal addysgu ychwanegol. Gallai'r newid sylweddol gynnwys cynnydd yn niferoedd y disgyblion o bedwar i chwech hefyd.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar wella medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn arfarnu effaith y camau hyn yn ddigon da. O ganlyniad, nid oes ganddi ddealltwriaeth glir o'r hyn sydd angen iddi ei wneud i sicrhau bod yr ysgol yn parhau i wella yn y maes hwn.

## Argymhellion

A1 Mynd at Lywodraeth Cymru i ofyn am newid perthnasol yn ysgol The Potteries

A2 Arfarnu effaith camau i wella llythrennedd ar draws y cwricwlwm er mwyn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella yn y dyfodol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella'r ffordd y caiff llythrennedd ei gydlynu a'i olrhain ar draws y cwricwlwm**

Mae'r pennaeth wedi rhoi nifer o gamau allweddol addas ar waith i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn ers Tachwedd 2017.

Mae cynlluniau dysgu unigol (CDUau) a thaflenni cryno o dargedau unigol yn cynnwys targedau llythrennedd priodol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae taflenni cryno o dargedau disgyblion yn cefnogi'r ffocws ar fedrau llythrennedd yn briodol ar draws y diwrnod ysgol, gan gynnwys gweithgareddau oddi ar y safle. Mae staff yn cofnodi cynnydd disgyblion yn erbyn y wybodaeth darged ac yn rhannu hyn mewn cyfarfodydd dyddiol gyda'r pennaeth i lywio CDUau disgyblion. Mae defnyddio cynlluniau gwersi a thargedau llythrennedd, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle, wedi effeithio'n gadarnhaol ar safonau llythrennedd disgyblion.

Mae'r ysgol wedi prynu a gweithredu rhaglen feddalwedd ddigidol ar-lein effeithiol. Mae disgyblion yn gallu mynd at asesiad ar-lein ac olrhain eu medrau llythrennedd a rhifedd eu hunain. Mae hyn yn eu helpu i ddeall y cynnydd y maen nhw'n ei wneud.

Mae'r system well o olrhain a chofnodi cynnydd llythrennedd disgyblion yn gwella safonau llythrennedd gweithredol ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae ymagwedd â mwy o ffocws gan staff at fedrau llythrennedd ar draws yr holl weithgareddau, ac maent yn cynnig modelau rôl da i ddisgyblion. Mae adroddiadau addysgol yn darparu gwybodaeth gywir a phenodol am safonau llythrennedd disgyblion ar draws gweithgareddau yn y dosbarth a gweithgareddau oddi ar y safle.

**Argymhelliad 2: Cynyddu cyfleoedd i staff rannu a dysgu oddi wrth arfer dda**

Mae rhaglen hyfforddi addas ar waith gan yr ysgol ar gyfer yr holl staff i gynorthwyo eu datblygiad proffesiynol. Mae'r seicolegydd cynorthwyol ar gyfer yr ysgol yn darparu cymorth a hyfforddiant i'r holl staff ar destunau fel anhwylder ymlyniad a'r defnydd o'r model ymadfer ar ôl trawma. Mae'r pennaeth wedi cyflwyno rolau cyswllt addysg ar gyfer staff cymorth, er mwyn sicrhau rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn effeithiol rhwng y lleoliad preswyl a'r ysgol. Mae'r rôl cyswllt addysg yn datblygu'n dda, ac yn cefnogi'n gadarnhaol rhannu arfer dda yn fewnol. Enghraifft o hyn yw'r cymorth y mae'r staff cyswllt addysg yn ei ddarparu i staff sydd newydd eu penodi, darparu gwybodaeth sefydlu a modelu strategaethau effeithiol ar gyfer gweithio gyda disgyblion.

Mae pedwar o aelodau staff cymorth wedi ymweld â dwy ysgol arall yn y sefydliad i arsylwi arfer. Fe wnaeth hyn alluogi staff i gymharu'u harfer bresennol gyda'u harsylwadau yn y ddwy ysgol. Rhannodd staff eu profiadau o'r ymweliadau, gan dynnu sylw at arfer dda a arsylwyd gyda'u cydweithwyr. Fodd bynnag, nid oedd llawer o gyfle yn ystod yr ymweliadau i staff The Potteries rannu profiadau ymarferol yn fanylach gyda'u cydweithwyr.

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd nifer o agweddau ar arfer effeithiol gan arolygwyr. Hyd yma, nid yw'r cwmni wedi manteisio'n llawn ar yr arfer effeithiol hon i'w rhannu gydag ysgolion eraill ar draws eu cwmni.

**Argymhelliad 3: Gwella cyfleusterau ar y safle i ddisgyblion chwarae a dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth**

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi gwneud newidiadau pwysig i'r cwricwlwm a'r cyfleusterau chwarae ar y safle.

Erbyn hyn, mae disgyblion yn gallu mynd i ardal ar y safle i chwarae pêl-droed, pêl-fasged a defnyddio'r trampolîn. Hefyd, mae disgyblion yn elwa o bysgota yn y gamlas leol, sy'n ffinio â safle'r ysgol.

Mae'r ysgol wedi gwella'r ddarpariaeth addysg awyr agored. Bellach, mae'r amserlen yn cynnwys sesiynau bob dydd Llun i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod eang o heriau corfforol yng nghefn gwlad yn lleol. Mae'r rhain yn cynnwys dringo creigiau, canŵio a cherdded mynydd.

Mae arweinwyr wedi lleihau faint o amser y mae disgyblion yn ei dreulio yn teithio yn ôl ac ymlaen o weithgareddau dysgu. Er enghraifft, mae aelod o staff yn darparu asesiadau therapiwtig i ddisgyblion ar safle'r ysgol erbyn hyn. Yn flaenorol, dim ond os oeddent yn teithio i un o'r ddwy ysgol arall a oedd yn berchen i'r cwmni yr oedd asesiadau therapiwtig ar gael i ddisgyblion. Mae'r mynediad ar y safle hefyd wedi cynyddu'r amser sydd gan staff i gysylltu'n fwy effeithiol â'r aelod arall o staff sy'n cyflawni'r asesiadau therapiwtig i ddisgyblion.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### Standard 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | The Potteries |
| **Rhif yr ysgol** | 6666051 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 10/09/2018 |
| **Perchennog** | CareTech UK |
| **Staff** | 1 athro sydd hefyd yn bennaeth, 27 o staff cymorth ar draws gofal ac addysg yn cynnwys 2 reolwr, 1 aelod staff sy'n darparu asesiadau therapiwtig. |
| **Nifer y disgyblion** | 4 |
| **Darpariaeth** | Lleoliadau preswyl hyd at 26 wythnos |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 16/11/2017 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 31/10/2016 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 01/09/2017 |